

Cyngor Cymuned Llansawel Community Council

Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gotomeeting.com am 20:25 ar y 24ain o Fedi 2020

*The meeting was conducted through gotomeeting.com at
20:25 on the 24th of September 2020.*

Yn bresennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors: Kevin Davies (Cadeirydd / Chair), Rhys George (Is-gadeirydd / Vice chair), Pat Racher & Rhys Green

Clerc / Clerk: Angharad Medi Lewis

1.	<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absence</u> Cyng. / Cllrs Lynne Jones, Sion Williams, Meurig Griffiths & Elsbeth Jenkins. Cyng. Sir / County Cllr: Eirwyn Williams
2.	<u>Datganiadau o ddiddordeb / Declarations of interest</u> Datganodd y Cyng. Pat Racher ei bod yn drysorydd i'r Ymddiriedolaeth Maes a Neuadd Llansawel. <i>Cllr Pat Racher declared that she is the treasurer for the recreation field and hall trust.</i>
3.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 20fed o Awst 2020</u> <u>Minutes from the previous meeting held on the 20th of August 2020</u> Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan yr is-gadeirydd ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Rhys Green. <i>The minutes were accepted as a true record and proposed by the vice chair and seconded by Cllr Rhys Green.</i>
4.	<u>Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes</u> i. Pont Tancoed, Heol Esgairdawe – Mae'r mater hyn mewn llaw. Nid oedd unrhyw diweddariad i'w adrodd y tro hwn. <i>Tancoed bridge, Esgairdawe Road</i> – <i>This issue is in hand. There was no update to report this time.</i> ii. Heol Esgairdawe, ger Trehelyg – Nodwyd bod y gwaith yma wedi'i wneud. <i>Esgairdawe Road, near Trehelyg</i> – <i>It was noted that the work had been undertaken.</i> iii. Coedwigaeth dan berchnogaeth breifat, ger pont Tancoed ar Ffordd Esgairdawe – Nodwyd bod y gwaith yma wedi'i wneud. <i>Privately owned forestry, near Tancoed bridge on Esgairdawe Road</i> – <i>It was noted that the work had been undertaken.</i> iv. Rhwysrau Diogelwch Atal Cerbydau, Cwm Hywel – Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd. <i>Vehicle Restraint Safety Barriers, Cwm Hywel</i> – <i>Works are currently being carried out.</i> v. Gwefan – Eglurodd y Cyng. Pat Racher y bydd y wefan Llansawelcc.com yn costio £36 y flwyddyn. Roedd y cynghorwyr i gyd yn hapus gyda'r pris a gall hawlio'r arian yn ôl gan y cyngor.

	Website - Cllr. Pat Racher explained that the website hosting address Llansawelcc.com will cost £36 a year. The councillors were all happy with the price and that she can reclaim the cost from the council. vi. Ardal Ailgylchu – Adroddodd y Cyng. Pat Racher bod yr ardal wedi'i chlririo ond nid oedd unrhyw sôn am y bin newydd eto. Recycling area – Cllr Pat Racher reported that the area had been cleared but there was no mention of the new bin yet. vii. Toileddau Cyhoeddus – Mae aelodau o'r Cyngor Cymuned wedi ymweld â'r toiledau, mewn ymateb i bryderon gan y cyhoedd ynghylch glendid ac ar eu hymweliad wedi canfod nad oes glanweithydd dwylo nac arwyddion yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod problem gyda'r glendid, dim ond diffyg cydymffurfiaeth. Codwyd pryderon y gallai'r Cyngor Sir gau'r toiledau os nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Cynigiodd y Clerc ddarparu posteri i'w harddangos yn y toiledau. Gofynnwyd i'r Clerc e-bostio'r ymddiriedolaeth Maes a Neuadd, gan dynnu sylw at ein pryderon, a chynnig ein cefnogaeth. Cytunodd y cyngorwyr fod angen arwyddion digonol, glanhau rheolaidd a dosbarthwyr glanweithdra dwylo ar y toiledau ac ni ddylent fod ar agor os nad ydynt yn cyrraedd y safonau cyfredol. Public Toilets – Members of the Community Council have visited the toilets, in response to concerns from the public regarding the cleanliness and upon their visit found that there is no hand sanitiser or signage on display. However, there did not seem to be an issue with the cleanliness, just a lack of compliance. Concerns were raised that the County Council may be able to close the toilets down if they do not comply with the current regulations. The Clerk offered to provide posters to put on display in the toilets. The Clerk was asked to e-mail the Recreation Field and Hall trust, highlighting our concerns, and offering our support. The councillors agreed that the toilets require adequate signage, regular cleaning, and hand sanitiser dispensers and should not be open if they are not up to current standards.
5.	<u>Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / The Future of Llansawel School Building</u> Cyhoeddwyd bod y Cyngor Sir wedi cynnig i'r Cyngor Cymuned gymryd y brydles ar gyfer yr hen ysgol os nad yw Ymddiriedolaeth Crochan Cwm Cothi yn dymuno cymryd y brydles drosodd. Bydd y Cyng. Eirwyn Williams yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod mis nesaf. Yn garedig iawn, paratôdd y Cyng. Pat Racher gopi drafft o gynllun ar gyfer yr hen ysgol. <i>It was announced that the County Council has offered the Community Council to take over the lease for the old school if Crochan Cwm Cothi Trust does not wish to take over the lease. Cllr Eirwyn Williams will give an update at next month's meeting. Cllr Pat Racher kindly prepared and shared a draft copy of a plan for the old school.</i>
6.	<u>Gohebiaeth / Correspondence</u> Dim / None.
7.	<u>Ceisiadau cynllunio / Planning applications</u> Dim / None.
8.	<u>Materion ariannol / Financial matters</u> Balans yn y cyfrif banc - £6,050.26 ar 28/08/2020.

	Derbyniwyd £1,833.33 o'r praesept. <i>Bank Account balance - £6,050.26 as of 28/08/2020.</i> <i>£1,833.33 was received from the precept.</i> Rhoddion a thaliadau / Donations & Payments i. • 000768 - Angharad Lewis - £160.80 – Clerks Wages for September 2020. • 000769 – HM Revenue & Customs - £40.00 – Clerks Tax & NI for September 2020. Bydd y clerc yn mynd a'r sieciau at y Cyng. Pat Racher a Cyng. Meurig Griffiths i'w lofnodi. <i>The clerk will take the cheques to Cllrs Pat Racher and Meurig Griffiths for signatures.</i> Cyfrifon blynyddol / Annual Accounts ii. Nid oedd unrhyw diweddariad. Nodwyd mai ym mis Hydref bydd Grant Thornton, yr archwilwyr allanol, yn gwneud yr archwiliad. <i>There was no update. It was noted that Grant Thornton, the external auditors, will be carrying out the audit in October.</i>
9.	<u>Coronafeirws / Coronavirus (Covid-19)</u> Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch Gwesty'r Llew Du am eu cyflawniad diweddar fel un o Arwyr Cyfnod Cloi Sir Gâr gan ddiolch iddynt unwaith eto am ei gwasanaeth anhygoel. <i>The Community Council would like to congratulate the Black Lion Hotel for their recent achievement as one of Carmarthenshire's Lockdown Loyalty Legends and thank them once again for their incredible service.</i>
10.	<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u> Cydymdeimladau – Estynnwyd ein cydymdeimlad dwysaf â'r Cyng. Elsbeth Jenkins sydd wedi colli ei hannwyl ŵr, Mansel, ac hefyd i'r Cyng. Meurig Griffiths ar farwolaeth drist ei fodryb, Annie. Bydd y ddau yn golled fawr i'r gymuned yn ogystal â'u teuluoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad at yr holl deuluoedd mewn profedigaeth. Condolences - <i>Our deepest condolences were extended to Cllr Elsbeth Jenkins who has recently lost her beloved husband, Mansel, and also to Cllr Meurig Griffiths on the sad passing of his aunt, Annie. Both will be a great loss to the community as well as their families. We send our condolences to all the bereaved families.</i>
11.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / Date and time of next meeting</u> 15fed o Hydref 2020 am 20:00. 15th of October 2020 at 20:00.
Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 21:20. <i>With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 21:20.</i>	

Arwyddwyd / Signed **Dyddiad / Date**